| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **10 Ionawr 2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **Cynllun Galluogi a Galwadau Teleofal** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd R H Wyn Williams** |
| | |

**1 Cyflwyniad i'r eitem**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yw ymateb i restr o gwestiynau ynglŷn â chynllun Galluogi a galwadau Teleofal.

**2 A yw'r cynllun Galluogi'n llwyddiannus?**

2.1 Yn ystod 2011/12 derbyniodd 342 unigolyn gyfnod o alluogi yng Ngwynedd. Ar gyfer 2012/13 gosodwyd targed o 425 unigolyn .Ar ddiwedd chwarter 2 roedd 232 unigolyn wedi cyfeirio .

2.2 Cytunwyd ar Fframwaith Mesur Perfformiad ac mae adroddiadau chwarterol yn cael eu paratoi . Un dangosydd yw'r "Canran o Unigolion sy'n gadael heb becyn gofal " ac mae'r tabl isod yn nodi'r perfformiad yn erbyn y targed

| 2012-13 | Targed | Arfon | Dwyfor | Meirionnydd | Gwynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwarter 1 | 50% | 59% | 45% | 48% | 53% |
| Chwarter2 | 50% | 56% | 33% | 39% | 47% |

2.3 Yn sgil y perfformiad a nodir bod y gwasanaeth angen gwneud gwaith pellach i ddeall gwahaniaeth ym mherfformiad yr ardaloedd . Angen deall ydi'r gwahaniaeth oherwydd

- math o achosion a gyfeirir at sylw'r gwasanaeth
- y ffordd rydym yn ymateb
- ffactorau eraill , er enghraifft y gefnogaeth sydd ar gael yn y cymunedau

**3 Gwybodaeth o brofiadau Defnyddwyr o'r Cynllun Galluogi**

3.1 Hyd yma nid oes gwaith wedi gwneud i gasglu barn defnyddwyr ond mae wedi ei raglennu i ddigwydd yn fuan yn 2013.

## 4  Faint o gwynion a dderbynnir ?

4.1 Yn ystod 2011/12 derbyniwyd  nifer fechan o gwynion. Roedd y cwynion oherwydd y disgwyliad i rai unigolion  a oedd angen  parhau i dderbyn gofal cartref newid darparwyr ar ddiwedd cyfnod o alluogi. Hyd at ddiwedd  chwarter 2 o 2012/13 nid oes cwyn pellach wedi ei dderbyn.

## 5  Gwybodaeth ynglŷn â chymorth sydd ar gael wedi cyfnod o 6 wythnos Galluogi ddirwyn i ben .

5.1 Ar gyfartaledd  oddeutu hanner yr achosion sy’n cael cyfnod ar Alluogi yn gadael heb yr angen am ofal cartref. Yn bwysig ein bod yn sicrhau fod cefnogaeth ar gael ymhob rhan o Wynedd  ac yn adnabod unrhyw fylchau. Gwaith  yma  yn parhau

## 6 Gwybodaeth ynglŷn â chynllun peilot o ddarpariaeth Uned Lleu ym Mhenygroes

6.1 Agorwyd yr Uned chwe gwely yma yng nghartref  preswyl Plas Gwilym ym Mhenygroes ym  Mehefin 2012 a’i henwi fel Uned Lleu .

6.2 Erbyn diwedd chwarter 2 roedd  3 unigolyn wedi cael mynediad i’r Uned, dau o’r ysbyty ac un o adref. Mae’r nifer wedi cynyddu yn ystod chwarter 3 a bydd dadansoddiad mwy manwl o’r cynlyn ar ddiwedd y trydydd chwarter.

## 7.  Galwadau Teleofal

7.1 Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth yn 2006/07 o dan arweiniad y Bwrdd Rhaglen Ranbarthol, gyda chynrychiolaeth o’r 6 Cyngor yn y Gogledd, i ddatblygu achos busnes ar gyfer sefydlu gwasanaeth monitro teleofal rhanbarthol.

7.2 Golyga hyn uno Gofal Môn a Conwy Careline a chau Flintshire Carelink.

7.3 Daeth gwasanaeth Galw Gofal, megis Gwasanaeth Monitro Galwadau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn weithredol o 1/6/2011.

7.4 Os yw unigolyn yn pwyso'r pendant neu fod un o’r teclynnau cymhleth yn adnabod risg mae’n gyrru galwad drwodd drwy ‘lifeline’ (sy’n gysylltiedig â’r llinell ffon) i Galw Gofal. Caiff y galwadau eu hateb ym Mae Colwyn neu yn Llangefni. Mae hyn yn galluogi bod galwadau yn cael ei hateb yn brydlon ac yn effeithiol, mae’r ddau sefydliad yn adlewyrchu ei gilydd ac mae system ‘disaster recovery’ mewn lle fel bod y gwasanaeth yn parhau i redeg mewn argyfwng. Mae’r ddau sefydliad yn sefydlog ac yn cynnig gwasanaeth o ansawdd.

7.5 Mae yna 14 o linellau ar gael ar bob amser gyda 4 ychwanegol i “lone workers”.